# Tystiolaeth CLlLC

## Ymholiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd ar wastraff

Craig Mitchell

Craig.mitchell@wlga.gov.uk

13 Mehefin

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

---

**Cyflwyniad**

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd mawr wrth ddarparu gwasanaethau ailgylchu a gwastraff o'r safon gorau ac erbyn hyn Cymru ydi'r drydedd wlad orau yn y byd am ailgylchu.  Fodd bynnag, fel y mae strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru yn ei egluro, mae'n rhaid rhoi mwy a mwy o bwyslais ar atal gwastraff, mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio a lleihau carbon.

Mae yna hefyd fanteision economaidd sylweddol posibl i'r 'economi gylchol' hon, lle cedwir adnoddau at ddefnydd cynhyrchiol am gyfnod hirach.  Mae'n rhaid i fentrau atgyweirio ac ailddefnyddio, mewn diffiniad, fod yn y cymunedau a wasanaethir ganddyn nhw (economi sylfaenol), gan gefnogi swyddi ac economïau lleol a rhoi bywyd newydd i ganol trefi a effeithiwyd yn ddrwg gan y pandemig.   Mae defnydd gwell o adnoddau hefyd yn helpu o ran yr argyfwng natur ac atal colli bioamrywiaeth, a'r arbedion mwyaf sylweddol ar garbon yw atal gwastraff.

Mae'r Cynghorau hefyd yn cydnabod mai elfen allweddol o lwyddiant gwasanaethau ailgylchu ar draws Cymru yw bod â sefyllfa polisi cenedlaethol cyson, targedau clir a chymorth sylweddol trwy'r Grant Rheoli Cynaliadwy dros y blynyddoedd. Mae'r

fframwaith hwn yn hanfodol er mwyn galluogi datblygiad gwasanaethau lleol cynlluniedig sy'n diwallu anghenion lleol gwahanol.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod nifer o Gynghorau wedi gorfod ystyried toriadau gwasanaeth mewn perthynas ag ailgylchu, gwasanaethau stryd a phriffyrdd dros nifer o flynyddoedd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa gyllidebol ehangach a'r gofynion sylweddol ar wasanaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i fodloni targedau yn y dyfodol. Mae cyllidebau cyfalaf y Cynghorau hefyd yn cael eu pwyso'n drwm yn sgil cyfraddau llog uchel, isadeiledd yn methu a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.  Bydd gwaith uwchraddio sydd ei angen i'r isadeiledd gwastraff - gorsafoedd trosglwyddo, canolfannau swmpio, depos, canolfannau ailgylchu, trawsnewid fflyd cerbydau trydan, yn parhau, a rhaid dod o hyd i gyllid er mwyn galluogi i'r gwaith barhau. Mae CLlLC wedi comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddrafftio nodyn briffio ar ffynonellau posibl o gyllid amgen ar gyfer gwaith amgylcheddol (Trosglwyddiad i sero net a arweinir yn lleol) ac mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn archwilio'r ffynonellau cyllid arloesol hyn er mwyn cefnogi eu gweithgareddau.

Ers 2007 mae'r Rhaglen Gwella Gwastraff o fewn CLlLC a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w cynorthwyo nhw i wella perfformiad ac effeithlonrwydd eu gwasanaethau gwastraff, gan ddilyn pedwar amcan allweddol yn y broses: tystiolaeth, effeithlonrwydd, gwella perfformiad a darparu egwyddorion cynaliadwy ehangach.

Rôl allweddol y rhaglen yw:

- casglu, dilysu a dadansoddi data perfformiad allweddol, ymateb i anghenion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau partner lleol;
- cyhoeddi data mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn gwneud y mwyaf o'i botensial ar gyfer gwella gwasanaeth;
- llywio penderfyniadau a dyluniad gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ar draws y 22 awdurdod lleol, trwy ledaenu data mewn digwyddiadau rhanbarthol, rhwydweithiau a phyrth ar y we;
- datblygu offer ac adnoddau sy'n gwneud gwahaniaeth i wasanaethau'r rheng flaen;
- galluogi caffael ar y cyd, gan gynnwys cydweithio; a
- chefnogi gweithgaredd Rhaglen Newid Gydweithredol.

Golyga hyn bod Cynghorau Cymru wedi bod mewn lle llawer gwell i ddarparu data i Defra er mwyn eu hysbysu o'u model ar gostau EPR. Rhaglen Gwella Gwastraff - CLlLC

**Cynnydd**

Mae Mwy nag Ailgylchu yn ei gwneud yn glir ein bod angen symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff er mwyn cyflawni'r nod o ddim gwastraff erbyn 2050. Er bod rhaid i Gynghorau gyflawni carbon sero net erbyn 2030, mae carbon sylweddol yn economi Cymru yn dod o'r nwyddau yr ydym yn eu defnyddio. Os gellir lleihau hyn, os allwn addasu patrymau defnyddio, yna gallwn gael buddion mawr o leihau carbon.

Mae gwaith yn parhau i geisio datgysylltu twf economaidd o sgil-gynhyrchion. Mae hyrwyddo ailddefnyddio ac atgyweirio fel patrwm defnyddio, wedi derbyn hwb sylweddol, o ran mentrau sector preifat ond hefyd o ddatblygiad ailddefnydd siopau/allfeydd ar ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar draws Cymru, yn ogystal ag ymdrechion y trydydd sector megis caffis atgyweirio a Benthyg.

Mae cyfyngiad ar wastraff bagiau du wedi dangos y gall hyn helpu i yrru deunyddiau allan o'r ffrwd ynni o wastraff i ailgylchu. Mae'r dadansoddiad cyfansoddiadol diweddaraf yn parhau i ddangos y gall fwy gael ei wyro er mwyn lleihau gwastraff.

**Heriau**

Mae Cynghorau hefyd â thargedau ailgylchu statudol i'w cyflawni, yr iteriad diweddaraf yw 70% erbyn 24/25 gyda thargedau pellach yn debygol o symud tuag at ddim gwastraff erbyn 2050. Mae nifer o'r Cynghorau eisoes yn taro'r targed o 70%, tra bod eraill yn parhau i weithio tuag at hyn.

Mae'n bwysig pwysleisio y gall perfformiad ailgylchu gael ei effeithio gan nifer o wahanol bethau, rhai sydd tu hwnt i reolaeth y Cynghorau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymgysylltiad cyhoeddus a defnydd gwasanaethau.
- Derbynwyr addas/marchnad ar gyfer ailgylchu/deunyddiau nad allent gael eu hailgylchu'n ymarferol ar hyn o bryd.
- Cyfyngiadau ar sut all deunyddiau gael eu trin - e.e. llygryddion organig parhaus mewn dodrefn meddal wedi'u difrodi sy'n golygu bod angen eu gwaredu mewn cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni.
- Oedi mewn buddsoddiad ar gyfer isadeiledd wedi arwain at oedi mewn fframwaith rheoleiddio a chaniatáu.
- Cyfyngiadau ar y buddsoddiad wedi arwain at sefyllfa ariannol ehangach heriol.
- Oedi i newidiadau gwasanaeth yn sgil Covid yn golygu bod buddsoddiad wedi ei oedi.
- Diffyg eglurder ar ofynion gwasanaeth yn y dyfodol yn sgil Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, Cynllun Dychwelyd Ernes a gwaharddiad ar blastig a'r hyn y bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth ddelio ag ef.
- Problemau o ran y natur wledig ac amddifadedd.
- Canran uchel o fflatiau, Tai Amlfeddiannaeth a llety twristiaid.

Mae’r data ar gyfer defnydd tirlenwi yng Nghymru yn dangos pa mor effeithiol oedd caffaeliad ar y cyd Llywodraeth Cymru/Cynghorau ar gyfer canolfannau Troi Gwastraff yn Ynni a Threulio Anaerobig. Mae Troi Gwastraff yn Ynni yn dechnoleg drawsnewidiol a dylid nodi effaith sylweddol y costau tebygol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau. Mae gwaith hefyd yn dechrau ar sut fydd gwastraff bwyd yn cael ei drin yn y dyfodol, wrth i gontractau/cyfleusterau presennol ddod i ddiwedd eu hoes, gan ei fod yn debygol y bydd llif gwastraff sylweddol o ystyried bod rhannau ohono’n anochel (croen llysiau ac ati). Hefyd, mae newidiadau i reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn golygu y bydd angen mwy o gapasiti ar gyfer trin gwastraff bwyd masnachol.

Bydd angen yn parhau am fuddsoddiad mewn isadeiledd gwastraff. Mae proffil newidiol y deunyddiau a ddelir â nhw, yn golygu bod angen i safleoedd adlewyrchu hyn. Os yw hyn yn debygol o olygu cyflwyno casgliad haenau plastig o 2027 wedi’i ariannu gan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, neu’r angen i ddelio â dodrefn meddal gyda llygryddion organig parhaus yn unol â chyngor rheoleiddwyr. Bydd angen buddsoddiad hefyd er mwyn diwallu’r gofynion rheoleiddio llymach megis rheoliadau tân.

Mae’r Byrddau Rhaglen Gweinidogol yr Economi Gylchol yn 4 o gyfarfodydd rhanbarthol yr arweinwyr cabinet gwastraff a’r economi gylchol, sy’n cwrdd bob chwarter. Maent yn edrych ar y gofynion isadeiledd yn y dyfodol, unrhyw botensial ar gyfer gweithgarwch cydweithredol rhanbarthol ac yn adolygu cadernid y ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn cysylltu â’r gweithgaredd addasu a lliniaru newid hinsawdd ehangach sydd ei angen fel rhan o’r gofyniad carbon sero net erbyn 2030.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn parhau i geisio canfod cyfleoedd i gyd-leoli prosiectau adnewyddadwy gyda defnydd ynni megis depo ar gyfer cerbydau allyriadau isel. Mae LlC yn ceisio cefnogi’r dull hwn yn eu rhaglenni cymorth cyfalaf.

O dan y broses grant Economi Gylchol mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi buddsoddiad sylweddol mewn rhaglenni ailddefnyddio ac atgyweirio. Mae gan y mwyafrif o’r Cynghorau siop ailddefnyddio yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac mae partneriaid megis Caffi Atgyweirio Cymru a Benthyg (Llyfrgell o bethau) wedi elwa o fuddsoddiad mewn cyfleusterau, yn aml yn canolbwyntio ar y stryd fawr er mwyn gwella hygyrchedd a helpu i adfywio’r stryd fawr ar ôl y pandemig.

Bydd angen buddsoddiad ac eglurder parhaus o ran sut fydd cyllid gan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cefnogi hyn.

**Cyflwyno Gwaharddiad ar Blastig a Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.**

Er ei bod yn gynnar yn y prosesau hyn i lunio gormod o gasgliadau, bydd y ddau yn newid cyfansoddiad y deunyddiau y mae angen i Gynghorau ddelio â nhw. Gan fod deunyddiau amgen eu hangen i ddisodli'r eitemau gwaharddedig, bydd angen adolygu hyn er mwyn penderfynu ar unrhyw ganlyniadau negyddol nad ydynt yn cyd-fynd â bwriad y polisi. Yn yr un modd â'r rheoliadau WPB, bydd effaith ar fusnesau, adeiladau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd bob amser problemau cychwynnol i'w datrys gydag unrhyw bolisi newydd, er enghraifft, un enghraifft o'r fath yw na ddarperir biniau cyhoeddus gan y Cyngor. Er ei fod yn arfer da i ddarparu biniau ar gyfer deunyddiau ar wahân, mae halogiad yn parhau i fod yn her, gan olygu y gall rhai busnesau/eraill dynnu eu biniau cyffredinol.

Mae dyfodiad Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn golygu y bydd mwy o waith dadansoddi cyfansoddiadol rheolaidd ei angen er mwyn penderfynu lle fydd pecynnu gwastraff, beth yw'r llwybr trin a beth yw'r costau. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer pecynnu sbwriel bin, ac yng Nghymru a'r Alban, pecynnu sbwriel stryd. Bydd y gofynion data hyn yn gost ychwanegol a *ddylai* gael ei dalu gan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a bydd hyn yn helpu Cynghorau i ddeall effaith y newidiadau polisi ar lif deunyddiau a chynllunio yn unol â hynny.

**Gweithgaredd lefel cymunedol**

Hefyd fe gomisiynodd CLlLC ymchwil i'r hyn mae cylcholdeb yn ei olygu ar lefel gymunedol, gan bartneru gyda Miller Research a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y gwaith hwn oedd ceisio deall beth oedd cylcholdeb cymuned, beth oedd ei gryfderau a gwendidau a pha gyfleoedd y gellid adeiladu arnynt. Mae tair astudiaeth beilot wedi cael eu cyflawni gyda chymunedau yng Ngwynedd, Sir Gâr a Chasnewydd. Pwrpas y gwaith hwb yw ymgysylltu'r gymuned mewn trafodaeth am gylcholdeb (a'i fanteision posibl) a llywio blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol.

Mae aelodau etholedig yn teimlo bod y dull hwn yn hanfodol os ydym am wireddu buddion posibl y CE a sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn effeithiol. Gall gopïau o'r adroddiadau peilot fod ar gael i'r pwyllgor os fyddai hynny o fudd (mae maint y ffeiliau yn fawr).

**Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr**

O ran alinio cymhelliant y llywodraeth mae'r polisïau o ran Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cyflwyno heriau penodol. Mae'r 4 gwlad mewn sefyllfaoedd gwahanol iawn o ran perfformiad ailgylchu ac felly maent oll yn edrych ar y polisïau hyn gyda safbwyntiau a chyd-destun gwahanol.

Y realiti yw er bod CLlLC yn cydnabod y buddion posibl y Cynllun Dychwelyd Ernes, yn arbennig o ran materion sbwriel, mae problemau yn parhau o ran cydraddoldeb (mynediad at bwyntiau Cynllun Dychwelyd Ernes a chludiant), dyblygu systemau (mae gwasanaethau ymyl palmant ar gael yng Nghymru) a lleihad mewn incwm (a pherfformiad ailgylchu) ar gyfer Cynghorau sy'n tanseilio darpariaeth ymyl palmant.

Mae’r heriau o ran pa ddeunyddiau i’w cynnwys, y gost o sefydlu Sefydliad Rheoli Uniongyrchol, ac o ystyried profiad yn yr Alban, yn debygol i ddisgyn ar y pwrs cyhoeddus, a’r lefel o fuddsoddiad sydd ei angen i greu rhwydwaith o beiriannau gwerthu gwrthdro, yn sylweddol.

Felly, rydym bob amser wedi awgrymu y dylai Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gael ei gyflwyno yn gyntaf, er mwyn penderfynu ar yr effaith cyn yr angen i geisio Cynllun Dychwelyd Ernes, ond wedi parhau i ymrwymo i wneud i’r Cynllun Dychwelyd Ernes weithio ar gyfer Cymru, ac i Gynghorau chwarae eu rôl yn y broses.

Felly, roedd yn synhwyrol oedi cyflwyniad y Cynllun Dychwelyd Ernes nes i effaith Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gael ei ddeall yn llawn. Byddai’n well petai deunyddiau Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael eu cynnwys gan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros dro gan fod arian cyhoeddus angen parhau i dalu ar gyfer delio â’r deunyddiau hyn.

O ystyried methiant gwaith y Cynllun Dychwelyd Ernes yn yr Alban, mae’n bwysig dysgu gwersi o hyn. Ymddangosir mai’r goblygiadau allweddol yw nad yw diwydiant yn debygol o ariannu’r costau sefydlu’n llawn, gan olygu y bydd angen arian cyhoeddus i sefydlu’r Sefydliad Rheoli Uniongyrchol, a bod unrhyw ddyhead i ddefnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes i wahanol ddeunyddiau yn gorfod delio â materion o amgylch Deddf Marchnadoedd Mewnol y DU.

Bydd y Sefydliad Rheoli Uniongyrchol yn cael ei arwain gan ddiwydiant ac yn ôl ein dealltwriaeth, mae’r statws hwn yn golygu bod rhaid i’r 4 llywodraeth fod â dull ysgafn tuag at ‘reoli’r’ sefydliad a phenderfynu sut mae’n rhannu ei swyddogaethau. Un agwedd y mae aelodau etholedig yn ei drafod yw y gall hyn olygu bod deunyddiau yn llifo allan o Gymru a bod eu gwerth yn cael eu gwireddu yn rhywle arall (sef yr achos yn aml beth bynnag, ond mae mwyafrif y drafodaeth isadeiledd CE yn canolbwyntio ar sut i wireddu’r gwerth yng Nghymru).

Yng Nghymru rydym wedi treialu Cynllun Dychwelyd Ernes Digidol yn CS Brycheiniog a Phowys. Roedd y cynllun hwn yn galluogi pobl i dderbyn ernes gan ddefnyddio ffôn clyfar a chod bar ar yr eitem ac yna’i waredu trwy eu gwasanaeth ailgylchu ymyl palmant.  Er bod nifer o broblemau technegol oedd angen eu datrys (megis argraffu codau bar unigryw ar filiynau o eitemau) mae potensial gwirioneddol ar gyfer hyn. Mae hyn hefyd yn negyddu'r angen i deithio yn ôl i rai pwyntiau canolig gyda’r deunydd er mwyn derbyn ernes.

Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn parhau i ddatblygu’n gyflym ac yn gynyddol gymhleth o ran y gwaith modelu, pa mor effeithiol ac effeithlon mae gwasanaethau ar draws y DU, sut fydd y diwydiant pecynnu yn diffinio eu

deunyddiau fel rhai y gellir eu hailgylchu (Dull Asesiad Ailgylchu) a sut fydd yn newid llif deunyddiau trwy'r economi.

**Cyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer Deunyddiau Pacio**
Wrth i wasanaethau ailgylchu ddatblygu mae'r llywodraeth leol wedi darparu gwasanaeth ychwanegol i etholwyr i sicrhau bod modd ailgylchu deunyddiau pacio a'u hail-ddefnyddio yn yr economi. Mae yna gostau mawr ynghlwm wrth hyn ac mae'r pedair gwlad wedi penderfynu y dylai'r cwmnïau hynny sy'n rhoi deunyddiau pacio ar y farchnad (cynhyrchwyr) dalu cyfran deg o'r costau dan yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu'. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo i weld sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol ac i sicrhau bod Cynghorau yn gallu adennill y costau net llawn. Ar hyn o bryd mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei gyflwyno o 2025.

Dan Gyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr bydd cynhyrchwyr yn gyfrifol am dalu yn uniongyrchol i'r Cynghorau (trwy weinyddwyr y cynllun) *gost net lawn* rheoli, ailgylchu a gwaredu deunyddiau pacio ac mi fyddan nhw'n cael eu cymell i wneud deunyddiau pacio yn haws i'w hailgylchu drwy ostwng y ffioedd yn seiliedig ar y gallu i ailgylchu. Bydd taliadau hefyd yn cael eu gwneud ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â deunyddiau pacio mewn biniau sbwriel ac, yng Nghymru a'r Alban, bydd hynny'n cynnwys sbwriel ar lawr, er y bydd hynny'n dod i rym wedyn.

Prif bryderon y Llywodraeth Leol ydi sut fydd y trefniadau ariannu yn gweithio a sut i ddylanwadu ar drefniadau sefydlu a gweithredu Gweinyddwr y Cynllun sy'n cynnal y cynllun ac yn penderfynu ar daliadau'r llywodraeth leol drwy broses a fydd yn edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau sedd ar y grŵp llywio gweinyddu'r cynllun ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod llais yn cael ei glywed.

Bydd taliadau yn cael eu gwneud yn chwarterol fel ôl-daliadau, yn seiliedig i gychwyn ar gostau wedi'u modelu nad ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu'r gwir gostau ac a all gael eu lleihau os ydi Cyngor yn aneffeithiol; hefyd nid oes eglurder tymor hirach ar yr hyn y bydd Trysorlys y DU yn ei wneud gyda'r gyllideb sydd ar hyn o bryd yn talu am wasanaethau gwastraff.

Caiff effeithlonrwydd (cost gwasanaeth) ei asesu drwy fodel talu (LAPCAP)[1]. Mae'r model yn grwpio Cynghorau yn ôl natur wledig ac amddifadedd, ac yna'n eu grwpio ymhellach fesul systemau casglu ailgylchu sych ac amlder casgliadau gwastraff gweddilliol. Ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf, y bwriad ydi gwneud taliad wedi'i fodelu i Gynghorau. Bydd Cynghorau yn cael gwybod beth fydd eu taliadau yn Hydref 2024. Bydd incwm o ailgylchu yn daliadau wedi'u netio. Mae'r holl grwpiau yn seiliedig ar y DU ac mae'n debygol y bydd Cynghorau Cymru yn cael eu grwpio

[1]Cost a Thaliadau Deunyddiau Pacio Awdurdodau Lleol

mewn ffordd nad ydym yn arfer ei weld h.y. Cynghorau a ystyrir yn wahanol iawn i'w gilydd yn yr un grŵp.

Pryder mawr ydi'r ffordd y caiff y cyd-destun polisi gwahanol yng Nghymru ei ystyried yn y model. Mae'r cyfraddau ailgylchu yn llawer uwch yng Nghymru na gweddill y DU ac mae'n rhaid i'r asesiad o gost gwasanaethau gwastraff ystyried y cyd-destun gwahanol yma. Os caiff mwy ei wario gan Gynghorau Cymru oherwydd eu hymdrechion ailgylchu drutach, mae perygl y byddan nhw'n ymddangos yn ddrud. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau bod Cynghorau Cymru yn cael cyfran deg o'r adnoddau.

Bydd effeithiolrwydd (faint o ddeunyddiau pacio a gesglir) yn cael ei fesur drwy nifer o fetrigau sy'n asesu perfformiad Cyngor wrth gasglu deunyddiau sy'n gysylltiedig â Chyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr. Mae'r broses yn caniatáu lleihau taliadau awdurdodau lleol (hyd at 20%) os na ystyrir bod y gwasanaethau yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad ond yn berthnasol os na fydd gwelliant ar ôl cynhyrchu a gweithredu cynllun gwella sy'n cynnwys camau 'rhesymol' a gytunir arnyn nhw rhwng Gweinyddwr y Cynllun a'r Cyngor.

O ran y setliad datganoli mae yna bryder y byddai'r broses wella yma yn cael ei goruchwylio gan Weinyddwr y Cynllun ar lefel y DU, a fydd i gychwyn yn rhan o DEFRA.

Mae Cynghorau Cymru eisoes yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru sydd â mwy o wybodaeth am y cyd-destun Cymreig ac mae CLlLC yn awyddus i weld y trefniant lleol yma, sy'n ddemocrataidd atebol, yn parhau.

Disgwylir y bydd hysbysiad o'r taliadau wedi'u modelu yn cael ei gyhoeddi fis Tachwedd 2024. Bydd y taliadau cyntaf yn cael eu gwneud fis Mawrth 2025.

Mae'r trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Chyfarwyddwyr Cyllid oherwydd y gall y goblygiadau i Gynghorau fod yn sylweddol. Tan y bydd y gwaith modelu wedi'i gwblhau, mae yna ddiffyg eglurder ac mae'n bosibl y bydd ailddosbarthiad effeithiol o'r adnoddau ar draws y gwahanol Gynghorau ac fe all hynny wedyn gynyddu neu leihau'r gefnogaeth i Gymru.

**Crynodeb**

Mae'n glir bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar ailgylchu, atal tirlenwi, helpu i yrru gwastraff i lawr a chefnogi'r cyhoedd o ran gwastraff bwyd. Mae datblygiad Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes yn cyflwyno lefel o ansicrwydd i'r system, a'i fod yn gadarnhaol nid all hyn fod yn rheswm ar gyfer oedi'r cynnydd.

Bydd holl gynghorau yn parhau i fod angen buddsoddi mewn isadeiledd, nid yn unig er mwyn dod yn garbon niwtral, weithiau cyn i oblygiadau llawn y newidiadau hyn ddod i’r amlwg. O ystyried bod y newid hwn ar lefel y DU, mae Cynghorau yn gweithio’n galed gyda Llywodraeth Cymru i gael eglurder ar gyllid yn y dyfodol, gofynion gwasanaeth, er mwyn modelu’r effeithiau ar lif deunyddiau/cyllid, ystyried gofynion di-garbon a cheisio diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Yn y cyfamser, rhaid i hyn oll gael ei gyfathrebu i’r cyhoedd mewn ffordd sy’n eu hymgysylltu, a’u gwneud i ddeall pam bod y newidiadau hyn yn digwydd. Mae perygl gwleidyddol o ran cyflwyno’r gwasanaethau newydd a ariennir gan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, megis casglu haenau plastig, tra bo’r sefyllfa gyllido ehangach yn golygu y gall wasanaethau lleol gwerthfawr eraill leihau. Bydd goblygiadau'r trefniadau ariannu gwahanol o ychydig ddiddordeb i’r cyhoedd.